



Ein cyf/Our ref MA/JM/5128/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Gadeirydd,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y gwaith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) sy'n parhau i gael ei wneud ganddynt.

Yn ystod proses graffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 ar 24 Hydref 2019, cynigiais weithio gyda'r Aelodau ar welliannau Cyfnod 3 mewn perthynas ag amseru a chyhoeddi adroddiadau'r adolygiad ôl-weithredu.

Roeddwn yn falch o gael trafodaeth gadarnhaol â Suzy Davies AC a Janet Finch Saunders AC am yr adolygiad ôl-weithredu. Daethom i gytundeb ar gael adolygiad ôl-weithredu interim ac un terfynol. Bydd y ddau adolygiad yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad a'u chyhoeddi – a chaiff hynny eu cyflwyno fel gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 3.

Cawsom drafodaeth hefyd am welliannau eraill yr Aelodau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2, a oedd yn ceisio ychwanegu rhagor o fanylder am yr hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn adroddiad ar yr adolygiad ôl-weithredu ar wyneb y Bil.

Rwy o'r farn o hyd nad oes angen y lefel honno o fanylder ar gyfer y Bil ei hunan. Fodd bynnag, rwy'n deall pwysigrwydd sicrhau cael adolygiad ôl-weithredu cynhwysfawr sy'n adrodd am effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a'i heffaith ar wasanaethau rheng flaen. Byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y Grŵp Gweithredu Strategol, gan anfon copi o'r llythyr at Gydgadeiryddion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data.

Gofynnaf i'r Grwpiau drafod cynnwys tebygol yr adolygiad ôl-weithredu ac ystyried pa mor ymarferol y mae'n ymdrin â'r materion sy'n codi yng ngwelliannau Cyfnod 2 a gyflwynwyd gan Janet Finch Saunders AC.

Er gwybodaeth, fe anfonaf gopi o lythyr y Grŵp Gweithredu Strategol ymlaen i'r Pwyllgor.

Disgwylir cynnal cyfarfodydd nesaf y Grŵp Gweithredu Strategol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data ar ddechrau mis Chwefror. Gofynnaf i'r Grwpiau ymateb, ac anfonaf gopi o'r llythyr i'r Pwyllgor, cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn eu trafodaethau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses graffu'r Cynulliad. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r adolygiad ôl-weithredu pan ddaw i law.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Julie Morgan'. The signature is fluid and cursive, with the first name 'Julie' being more prominent than the last name 'Morgan'.

Julie Morgan AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services